Cyngor Celfyddydau Cymru

# Coronafeirws: Cymorth i Unigolion

# Cronfa Ymsefydlogi

# Atebion Ychwanegol

Mai 2020

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government
Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

1. **Rhestrir "academyddion neu weithwyr proffesiynol eraill ym maes addysg" dan y rhai sy'n anghymwys. Ond mae unigolion sy'n gweithio mewn lleoliad academaidd neu addysgol i ategu eu hymarfer creadigol. A fyddai hyn yn eu gwneud yn anghymwys?**

   Rydym ni'n cydnabod bod gan lawer o ymarferwyr creadigol yrfa â sawl agwedd iddi. Mae'r rhai sy'n gweithio mewn lleoliad academaidd neu addysgol yn gymwys i wneud cais ar yr amod bod rhagor na 50% o'u hincwm yn dod o'u gwaith creadigol llawrydd. Ni all y gronfa yma dalu am weithgarwch sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gwaith academaidd neu waith addysgol.

2. **Gallai fod prosiect sy'n 'cyflogi' eraill yn artistiaid/mentoriaid ac ati am ychydig ddyddiau neu wythnos. Os felly, a all pobl gael eu henwi mewn rhagor na 2 gais? Nid cydweithfa fyddai hon eithr cydweithwyr cyfartal am ychydig ddyddiau/wythnos o dâl. A all pobl gymryd rhan mewn rhagor na 2 brosiect?**

   Fel y dywed ein canllawiau, ni fyddem yn disgwyl i unrhyw unigolyn fod yn rhan o ragor nag un cais fel unigolyn neu grŵp. Ond rydym ni'n cydnabod y gallai pobl fod yn gysylltiedig â gwahanol brosiectau ar wahanol lefelau o ran gweithgarwch ac amser. Bydd unigolion yn gallu cael eu talu am waith ar brosiectau eraill mewn swyddogaeth wahanol (er enghraifft fel mentor, cyfaill beirniadol, rhywun sy'n darparu arbenigedd mewn celfyddyd benodol) ac a allai felly gael ei dalu am waith ar nifer o brosiectau eraill drwy'r gronfa yma.

   Bydd angen i ymgeiswyr ystyried lefel eu hymwneud a'u gallu i gyflawni gwaith ar gyfer pob prosiect yn yr achosion yma.

3. **A yw'n iawn gweithio gyda chydweithwyr/mentoriaid/artistiaid eraill o'r tu allan i Gymru (a'u talu)?**

   Ar yr amod y gallwch ddangos ei bod yn cael effaith gadarnhaol ar eich ymarfer eich hun a bod budd cyhoeddus penodol i bobl sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru.

4. **Os oes gan bobl grant sy'n agored gyda chi, a oes rhaid eu bod wedi cyflwyno adroddiadau diweddu am y grant yna i wneud cais am y gronfa?**

   Gallwch fod â grant agored gyda ni a dal i wneud cais i'r gronfa yma, er y byddwn ni'n ystyried eich gallu i ymgymryd â sawl prosiect yn ystod ein hasesiad.

   Ni fyddwn ni'n rhoi grant i ymgeiswyr nad ydynt wedi bodloni amodau eu grant blaenorol, gan gynnwys y rheidrwydd i gyflwyno adroddiadau diweddu.

5. **A ydych chi'n caniatáu gwariant cyfalaf?**

   Ydym, ar gyfer offer a fydd yn hwyluso'r cynnig (er enghraifft offer digidol). Uchafswm y gwariant yw £2,000 i bob cais.

6. **Nid yw'r gronfa ymsefydlogi’n cynnwys 'gweithgareddau sy'n digwydd mewn ysgolion'. Pam hynny, am fod llawer o waith ymarferwyr creadigol yn ymwneud yn rhannol neu'n bennaf â datblygu gwaith gyda phlant a phobl ifanc?**

   Mae gennym raglen waith benodol i ysgolion yng Nghymru – Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a’r consortia rhanbarthol. Rydym ni eisoes wedi hysbysebu cyfleoedd sy’n gysylltiedig â’r rhaglen a bydd rhagor yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Oherwydd hyn ni fyddwn ni’n ariannu o’r gronfa yma brosiectau yn yr ysgol ond byddwn ni’n ystyried prosiectau i blant a phobl ifanc y tu allan i’r ysgol cyn belled â’u bod yn diwallu ein meini prawf.

7. **Mae canllawiau'r gronfa’n aneglur am natur prosiectau a all gynnal gweithgarwch proffesiynol yn y dyfodol ("datblygu, esblygu a chynnal gwaith"). A allwch egluro hyn?**

   Rydym ni’n ceisio cadw'r gronfa yma mor agored â phosibl ar gyfer ymatebion i amgylchiadau unigol. Mae pob unigolyn yn wynebu ei broblemau ei hun. Dyma pam rydym ni am fod mor hyblyg â phosibl, gan ehangu’r dewisiadau.

   Mae rhai unigolion yn dibynnu ar waith sefydliadau celfyddydol. Rydym ni’n gwybod efallai na fyddwch chi’n rhan o'r trafodaethau mewn sefydliadau celfyddydol am eu hamserlenni ailagor. Bydd hyn yn amlwg yn effeithio ar ddyddiad dechrau gweithgarwch ac effaith yr ymbellhau cymdeithasol presennol. Mae'r holl bethau hyn yn newid o ddydd i ddydd.

   Ond os gallwch, ceisiwch gael gwybod beth mae partneriaid posibl yn ei gynllunio. Os na allwch, defnyddiwch eich dychymyg a'ch gwybodaeth am eich sector i ddangos yr hyn y gallwch ei gynnig/ei ddatblygu ar hyn o bryd. Gallai hyn fod yn weithgarwch sy'n cysylltu â chynulleidfaoedd mewn ffyrdd newydd, neu weithgarwch sy'n cefnogi a datblygu newid i ymarfer creadigol. Rydym ni'n annog unigolion i feddwl yn ddychmygus, i fentro a bod yn greadigol wrth feddwl am yr hyn a fyddai’n bosibl mewn byd newydd.

8. **Yn ôl y canllawiau na fyddwch chi’n derbyn ceisiadau ar gyfer prosiectau ffilm/sgrin. Ond a yw’r rhestr o ddisgyblaethau a ariennir yn cynnwys ffilm?**

   Er nad ydym ni’n sôn yn benodol am ffilm, mae agweddau ar wneud ffilmiau y byddwn ni’n debygol o'u hariannu dan y celfyddydau digidol neu ysgrifennu neu gynhyrchu deunydd artistig/creadigol gwreiddiol.

   Mae cyfleoedd hefyd i gael arian drwy Ffilm Cymru a allai fod yn fwy perthnasol. Dylech ystyried y rhain cyn gwneud cais i ni.

9. **Dydw i ddim wedi cael arian cyhoeddus o'r blaen, ydw i'n gymwys i wneud cais?**

   Mae'n dibynnu. Rydym ni am gefnogi unigolion i greu a chynnal eu hymarfer unigol yng Nghymru. Ond mae'n rhaid i'r arian a roddwn gefnogi'r rhai sydd wedi dangos eu bod wedi llwyddo yn y sector celfyddydol proffesiynol yng Nghymru. Arian cyhoeddus yw ein harian. Fel arfer mae hyn yn meddwl cefnogi'r rhai sydd wedi cael arian cyhoeddus neu sy'n gallu dangos eu bod wedi gweithio yn y sector celfyddydol dielw.

   Rydym ni'n falch bod artistiaid yn gallu gweithio ar adegau arferol heb angen cael arian cyhoeddus. Rydym ni'n gwerthfawrogi eu cyfraniad. Ond mae'n bosibl bod y rhai sydd wedi gweithio er elw yn y gorffennol yn ystyried erbyn hyn ffyrdd newydd o ddatblygu a chynnal eu hymarfer artistig er budd y cyhoedd.

   Drwy'r gronfa canolbwyntiwn ar y rhai sy'n creu gwaith artistig gwreiddiol yn un o'r celfyddydau a ariennir i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd a hyrwyddo ymgysylltiad ehangach â'r celfyddydau. Rydym ni am ariannu artistiaid i wella eu hymarfer creadigol, buddsoddi mewn sgiliau i ddatblygu gyrfa gynaliadwy yng Nghymru neu gryfhau ochr fusnes eu hymarfer. Felly, os nad ydych wedi cael arian cyhoeddus o'r blaen, cewch ymgeisio os gallwch ddangos eich bod yn bodloni ein meini prawf.

10. **Cerddor/mewn band ydw i sy'n creu cerddoriaeth wreiddiol gyda hanes o lwyddo. A allaf wneud cais?**

    Gallwch. Rhaid ichi ddangos bod:

    - gennych hanes o lwyddo yn eich maes
    - cryn dipyn o'ch ymarfer yn seiliedig ar eich cerddoriaeth
    - eich gweithgarwch arfaethedig yn briodol i hynt eich gyrfa

    Er enghraifft, efallai fod popeth yn ei le gennych i ryddhau cerddoriaeth, ond nawr rhaid ichi addasu eich cynlluniau i ganolbwyntio ar ddigidol.

    Rhaid ichi gyflwyno:

    - achos cryf dros briodoldeb eich gweithgarwch i hynt eich gyrfa
    - esboniad o bwysigrwydd cynnal y gweithgarwch

    Byddwn hefyd yn chwilio am dystiolaeth eich bod wedi cael arian cyhoeddus neu wedi bod yn rhan o brosiectau a ariannwyd yn gyhoeddus yn ystod y tair blynedd diwethaf. Gallai hyn fod drwy Gyngor Celfyddydau Cymru neu drwy raglenni eraill rydym ni'n eu cefnogi - Gorwelion, Ffocws Cymru, Trac, Sefydliad y PRS, PYST - neu drwy Lywodraeth Cymru. Os ydych mewn band, gall aelod unigol wneud cais ar eich rhan.

11. Gofynnwyd inni egluro cymhwysedd:

- gweithwyr llawrydd sy'n cael eu dosbarthu fel cyflogeion at ddibenion Talu Wrth Ennill neu

- gweithwyr lle nad yw rhagor na 50% o incwm arferol yn dod o weithgarwch celfyddydol uniongyrchol yn ôl ein meini prawf

Mae'r gronfa ymsefydlogi i unigolion yn cynorthwyo'r unigolion sydd fwyaf angen cymorth ar hyn o bryd. Nid yw'n ailagor un o'n cynlluniau prosiect rheolaidd y Loteri Genedlaethol ac mae'r meini prawf cymhwysedd yn adlewyrchu hyn.

O ran ein diffiniad o waith llawrydd, rydym ni’n disgwyl i chi benderfynu am eich statws cyflogaeth. Nid ydym ni’n disgwyl ichi ddefnyddio diffiniadau Cyllid a Thollau ei Mawrhydi sy'n penderfynu a ydych yn talu yn ôl y cynllun Talu Wrth Ennill. Gallwch fod ar gyflogres Talu Wrth Ennill cwmni ac yn dal i ystyried eich hun yn llawrydd.

Rydym ni wedi cynnwys yr angen i ennill o leiaf 50% o'ch incwm o'ch gwaith llawrydd er mwyn inni allu ariannu'r rhai sydd fwyaf mewn angen. Drwy wneud hyn gallwn ariannu'r rhai sydd wedi colli swm mawr o'u hincwm artistig, er na fwriedir i hyn fod yn gynllun disodli incwm. Gofynnwn ichi benderfynu am hyn drwy ystyried cyfnod priodol o amser (efallai eich ffurflen dreth ddiwethaf neu rywbeth tebyg). Drwy wneud cais byddwch i bob pwrpas yn gwneud hunanddatganiad eich bod yn ystyried bod eich gwaith celf llawrydd fel arfer yn darparu rhagor na 50% o'ch incwm.

Byddwn ni’n dibynnu'n drwm ar onestrwydd ymgeiswyr i wneud y penderfyniadau hyn a fydd yn caniatáu inni ariannu'r rhai sydd â'r angen mwyaf.

Rydym ni’n gobeithio agor ein rhaglenni rheolaidd yn ddiweddarach (nid oes penderfyniad eto ynghylch pryd). Efallai y bydd yn fwy priodol ichi wneud cais i un o'r rhaglenni yna os ydych yn gymwys ar y pryd.